

Wrth lunio erthygl ar Goleg Bangor daeth i gof y Dr. Robyn Lewis ran o gywydd a luniodd T.H. Parry Williams. Hyd y 'gwyddai nid yw y cywyddwedi ei gyhoeddi erioed. Ysgrifennoxld lythyr i BARDDAS i holi tybed a oedd gan rywun gopi o'r cywydd. Ddeuddydd ar ôl i'r llythyr ymddangos yn BARDDAS cafodd R.L. llythyr oddiwrth gyn gydymaithiddo, sef T. Gwynn Jones o Abergwaun (gynt o Gorwen). Yr oedd y gerdd ar glawr mewn llyfr nodiadau gan Gwynn Jones. Roedd T.H.P.W. wedi cyfansoddi'r cywydd ar gyfer parti cerdd dant meddai R.L. i ddathlu tri chwarter c a n mlwyddiant Coleg Aberystwyth. Rydym yn hynod ddiolchgar i Robyn Lewis, ac i'w gof tîrf, am inni gael y fraint o gynnwys y cywydd meistraidd hwn yn 'Llên y Llanw'.

Y Coleg Ger y Lli

I Goleg y Colegau y canwn,

Fe fu cenedlaethau

Llawn o hoen yn llawenhau

Yn nodded dy neuaddau.

Hyd y môr, gyda miri

A mwynhad y daethomni,

Oddiar chwal i gynnal gwyl:

Gŵyl gynnes, goleg annwyl.

Penllad yw dathlu adeg

Dirwyn taith i oedran teg.

Ti a gefaist dy gyfoeth

O geiniog brin gwerin goeth

A fu'n aberthu o'u bodd:

Eu hyder a'th gyfododd.

Boed coffa da, dyladwy,

Yn y tir amdanynt hwy.

Ar dy wedd i'th goleddu

Machludodd miloedd a fu,

A lli di-ri foreau

Yn oedi cyd i'th decau.

Tros urddas dy blas bu bloedd

Awr anterth y corwyntoedd.

O Aber, câr dy feibion

Dy gaerau di ger y don;

A'th ferched dirifedi

Sy'n eu tro'n d'anwylu di.

Genau serch yn datgan sydd

Dy glod ar hyd y gwledydd.

Dy hud a'th draddodiadau

Pur a hen a fo'n parhau:

Byth ni bydd modd diffoddi

Asbri teg dy ysbryd di.

Ni ffy rin d'arwyddairffraeth:

"Nid byd, byd heb wybodaeth".

T.H.P.W.

'Dyw'r cerddor, a'r bardd, a'r llenor

amryddawn John Stoddart ddim yn rhy dda

ei iechyd ar hyn o bryd. Blin iawn gennym

glywed am hyn. Gobeithiwn y caiff

adferiad buan. Byddwn yn edrych ymlaen

bob tro am gael gweld ei englynion gwych.

Yn wir, mae wedi bod yn hynod garedig er

ei holl brysurdeb yn cofio am ein colofn

fach yn Llanw Llŷn.

Mor addas yw'r idiom yn llinell olaf

yr englyn hwn.

Balchder

Grym y gŵr talog erioed ni sigwyd

drwy saga'i ieuengoed;

Ond hwn, gan wendid henoed

Yn gam, ddaw'n syth at ei goed.

Pererindota

(Addasiad o bennill o'r hen Wyddeleg a briodolir i Sedulius Scotus)

Ai yr hen gredinwyr ar daith i Rufain (ac i Enlli a lleoedd eraill) i chwilio am lendid o'u gwendid: a iachad i'w poenau au pryderon. Os gwn i beth fyddai ar y 'menu' yn Nhwnt i'r Afon cyn iddynt fynd ymlaen am Enlli? A'i dyna ystyr Rhydyclafdy?

Gwyddys mai dyrys yw'r daith i Rufain,

a rhyfyg yw'r ymdaitb;

un dim, heb Dduw'n gydymaith

ni cheir o'r lâr yno chwaith.

John Stoddart

'Glo Clecs' mae'r bardd yn galw y defnydd a wna llawer ohonom o sôn a straeon am droeon sy'n drewi yn hanes ein cydfforddoliau. O'r 'glo' hwn y ceir y tân sy'n 'dân ar groen dyn' (Talai inni roi ystyriaeth fanwl i'r trosiad isod).

'Glo Clecs'

Uwch ei ffwrn rhowndwm bob dydd gan ysfa

am gnysfwyd o'r newydd;

a'r saig gyda'r gorau sydd

i'w gael o rostio'n gilydd!

John Stoddart

(dwm = twm)

Dyma deyrnged i'r bardd gan gyfaill iddo:

Onid ydyw John Stoddart* yn nyddu'n

rhyfeddol ar ganiad.

A rhoi o'i awen yn rhad

I ninnau ryw eneniad.

* Maddewir y 'D' er mwyn yr odli'

D.G.

Cafodd cerddi plant Ysgol Aberdaron a Sam Bach dderbyniad cynnes y mis o'r blaen. Mae mwy i ddwad, wrth gwrs. Ond dyma un a ddaetb o law ei nhain o Abersoch o waith ei hwyres wyth oed sy'n byw yn nhŷ ffarm y Muriau ger Mynytho. Elen Huws yw enw'r bardd a ganodd mor bert inni ar y testun "Llŷn i mi".

"Llŷn i mi..."

Llŷn i mi yw tonnau yntaro

ar y creigiau yn Abersoch

a'r haul yn mynd i gysgu ar Enlli.

Llŷn i mi yw gweld yr anifeiliaid

yn cael hwy!

a Jon Meical a Jen

yn dod i ffarmio

i mi gael helpu.

Llŷn i mi yw gwlan ar bob giat

a gweld y môr o fy ngwely.

Llŷn i mi yw Abersoch yn y gaeaf

am ei bod yn dawel

a dim llawer o bobol o gwmpas.

Elen Huws

I gyfarch Annie, fy nghyfnither sy'n byw

ym Modwyddog, Abererch, wrth iddi

ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

'Bodwyddog' oedd enw cartref ei thad yn y

Rhiw gynt.

Yn ddi-rodres, ond gwresog, i Annie

dymunaf daith heulog;

A dyddiau ym Modwyddog

O fyw'n hir yn Nhir na n-Og.

Die Goodman

Ond tydi o'n ddieflig o annioddefol gorfod gweld a gwrando ar bobolddwad unieithol yn newid enwau traddodiadol a hanesyddol hefyd. Maent yn dod i'n plith, prynu, neu led-brynu ein tai a'n hen gartrefi, yna maent yn newid yr hen enwau cyfarwydd, Cymreig e.e. Troi stâl o dai a godwyd ar dir Tai'r Pfolit yn "St. Tudwal's Estate". Cofiwch chi mae 'na lefydd sydd wedi troi'n Gymraeg - beth am Afon Cornwall? Galwant y Foel Tŵr y "Jam Pot Hill", heb fod ganddynt rithyn o syniad mai murddun y Tŵr Melin Wynt yw'r adeilad crwn sydd ar ben y Foel. Mae tŷ cymharol newydd ar ros Glanpwll yn arddel yr enw eneiniedig o "Penny Cottage". Be' wnawn ni 'dwch?

Gwerthwyd maes gwyliau Bryntirion i Sais Carafaniog a newidiodd enw'r lle yn "Willows Caravan Site". Cythruddwyd Cyril, Saethon gynt i nyddu englyn, englyn miniog i'r rhai di-hid a dwl sydd yn ddigon twp, hunandybus ac anghyfrifol i newid pethau nas gwyddont ddim 011 amdanynt. "A beth am Llantwit Major, me'i'?"

Y Mynydd

Y Glyn a sŵn gelynyon - 'The Willows',

o ddiawl, yw Bryntirion;

Annwyl oedd iaith 'r ardal hon

Nes y'i hyswyd gan Saeson.

Cyril Jones

Rhag inni fod yn gwbwl anheg rhaid yw cydnabod fod yma Saeson sy'n parchu ein hiaith yma'n byw yn ein plith: e.e. mewn tŷ a elwid 'Curlew's Call', Cymreigiwyd yr enw i 'Cri'r Gylfinir! ac un arall yn 'Nant y Mynydd' a tŷ a elwid yn 'China' yn 'Pendref'. Stâl Nanhoron a roddodd yr enw 'China' a ninnau yn galw y Cymro da hwnnw oedd yn byw yno er stalwm yn Cheini! Mae Cyril, enw a yngenir i C galed fel llythyren gychwynol iddo (maddewch y sangiad hir) Jones sy'n ffermwr wedi ymddeol yn gynnar, yn beirniadu Senedd y 'Llafur Newydd' yn bur hallt.

Llafur Newydd

Mynnu ein baglu bob un yw eu gem;

Di-gymorth, er erfyn;

Ar rawd hir taith bwriad dyn,

Y blêr sydd glamp obloryn!

Cyril Jones

Dwn i ddim a yw y bardd wedi camsillafu

enw rhywun yn ei linell olaf a'i peidio!!

TERYNGED I Tŷ NEWYDD

Ym mhentref Sam ym mhen draw Llŷn

Saif y dafam orau un,

Tŷ Newydd yw ei henw i chi ga'l dallt

Tafarn Gymreig ar ben yr allt.

Adrian a Megan sy'n ei chadw hi

Cewch ddiod a sgwrs rhwng dau a thri.

Grwpiau yno'n canu ar nos Sadwm bois bach

A'r noson yn mynd yn ei blaen heb fath o strich

Alwyn Lôn a Mwsh yn yfad 'run cwrw

A'i yfad yn ddistaw heb achosi twrw.

Billy Sgows yno'n canu efo'i Top Banana,

Sâff i chi fe yfai'n fanna.

1010 Williams,

Aberdaron.

Diolch i'r beirdd. Heb y talentau yma ni fyddai gennym Golofn. byddwn yn cael 'gair da' iddynt gan eu darllenwyr yn bur aml. Cofiwch amdano: 740 289.